Cofrestrfa Tir EF

# Cais i gymeradwyo ffurf safonol gweithred arwystl a neilltuo cyfeirnod swyddogol Cofrestrfa Tir EF

# ACD

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Defnyddiwch **un** ffurflen ar gyfer pob arwystl. Rhaid darparu **dau** gopi o'r arwystl gyda'r cais hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | 1 | Enw'r ceisydd: |
| Rhowch gyfeiriad(au) gan gynnwys cod post (os oes) y ceisydd. | 2 | Cyfeiriad:<br><br>Cyfeirnod:<br>Rhif ffôn:<br>Cyfeiriad ebost: |
| Rhowch enw(au) llawn<br><br>Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw'r rhoddwr benthyg yn gwmni. Hefyd, ar gyfer cwmni tramor, oni bai bod trefniadau wedi eu gwneud gyda Chofrestrfa Tir EF, cyflwynwch gopi ardystiedig o'r cyfansoddiad yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu dystiolaeth arall a ganiateir gan reol 183 o Reolau Cofrestru Tir 2003.<br><br>Rhaid i roddwr benthyg roi ei enw cyfreithiol yn union fel y'i cofrestrwyd yn Nhŷ'r Cwmnïau neu os yw'r rhoddwr benthyg yn gwmni tramor o fewn ystyr Deddf Cwmnïau 2006, yr enw cyfreithiol llawn fel y'i cofrestrwyd yn nhiriogaeth ei gorffori. | 3 | Rhoddwr benthyg i'w gofnodi yn y gofrestr:<br><br>Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/cymdeithasau cofrestredig<br>Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau neu Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol gan gynnwys unrhyw ragddodiad neu ôl-ddodiad:<br><br>Ar gyfer cwmnïau tramor<br><br>(a) Tiriogaeth ei gorffori:<br><br>(b) Rhif cofrestredig yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys y rhagddodiad FC neu BR fel y'i cofrestrwyd yn Nhŷ'r Cwmnïau: |
| Rhowch 'X' yn y blwch(blychau) os yw'n briodol.<br><br>Gweler cyfarwyddyd ymarfer 30: cymeradwyo dogfennau morgais am ddiffiniad o gyfyngiad safonol. | 4 | ☐ Mae'r arwystl yn cynnwys cyfyngiad safonol yng nghymal:<br><br>☐ Mae'r arwystl yn cynnwys cais i gofnodi rhwymedigaeth i wneud blaensymiau ychwanegol yng nghymal: |

Gall pob rhoddwr benthyg roi hyd at dri chyfeiriad ar gyfer gohebu a rhaid i un ohonynt fod yn gyfeiriad post boed yn y DU neu beidio (gan gynnwys cod post, os oes). Gall y cyfeiriadau eraill fod yn unrhyw gyfuniad o gyfeiriad post, rhif blwch DX yn y DU neu gyfeiriad ebost.

Unwaith mae'r arwystl wedi ei gymeradwyo, byddwn yn cofnodi dim ond y cyfeiriad(au) ar gyfer gohebu a roddwyd ar y ffurflen hon adeg cofrestru'r arwystl. Anwybyddir unrhyw gyfeiriadau eraill a roddir ar gais i gofrestru'r arwystl cymeradwy. Gweler yr ymrwymiad ym mhanel 7.

5 Cyfeiriad(au) arfaethedig y rhoddwr benthyg i'w gofnodi yn y gofrestr:

| | |
|---|---|
| | 6 O ran y weithred arwystl ddrafft y ceisir neu y rhoddir cymeradwyaeth yn ei chylch mae'r ceisydd yn ymrwymo |
| Gall newid ffurf yr arwystl cymeradwy, gan dorri'r ymrwymiad, beri i gofnodion anghywir gael eu gwneud yn y gofrestr a thynnu'r gymeradwyaeth yn ôl.<br><br>Bydd angen ichi wneud cais i ail-gymeradwyo cyn gwneud unrhyw newidiadau i arwystl cymeradwy neu unrhyw amodau morgais a ddelir ar wahân ond a ymgorfforwyd. | (i) i gorffori unrhyw newidiadau a nodwyd gennym ar yr arwystl cymeradwy. Mae cymeradwyaeth yn amodol ar y newidiadau'n cael eu gwneud.<br><br>(ii) i beidio â newid yr arwystl cymeradwy neu unrhyw amodau morgais a ddelir ar wahân ond a ymgorfforwyd a, lle bo elfennau o'r ddogfen derfynol yn cael eu cadw'n electronig, i sicrhau bod y data'n cael ei gadw'n ddiogel a heb ei newid heb gytundeb blaenorol y Cofrestrydd (mae'r ceisydd yn deall y gallai torri'r ymrwymiad hwn arwain at wneud cofnodion anghywir yn y gofrestr a thynnu'r gymeradwyaeth yn ôl), ac<br><br>(iii) i hysbysu'r Adran Trefniadau Masnachol ym Mhrif Swyddfa Cofrestrfa Tir EF o leiaf ddwy wythnos cyn newid unrhyw un o'r cyfeiriadau ar gyfer gohebu a roddir ym mhanel 5. |
| Ar ôl ei gwblhau dylid anfon y cais hwn i:<br><br>HM Land Registry Head Office<br>Commercial Arrangements Section<br>PO Box 2079<br>Croydon CR90 2NU<br><br>neu<br><br>HM Land Registry Head Office<br>Commercial Arrangements Section<br>DX 8888<br>Croydon 3<br><br>Neu gallwch anfon y cais trwy ebost i: CommercialArrangements@landregistry.gov.uk | 7 **Mae'r ceisydd yn gwarantu bod gan y sawl sy'n llofnodi'r cais ac ymrwymiad hwn awdurdod priodol i wneud hynny**<br><br>Llofnodwyd [ar ran y rhoddwr benthyg]:<br><br>gan:<br><br>Dyddiad:<br><br>Enw'r ceisydd:<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Rhif blwch DX yn y DU:<br><br>Cyfeirnod:<br><br>Rhif ffôn:<br><br>Cyfeiriad ebost: |

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

| **Ar gyfer y swyddfa'n unig** | |
|---|---|
| Cyfeirnod MD wedi ei ddarparu<br>Awdurdodwyd gan: | Dyddiad |
| Manylion wedi eu cofnodi yn y gronfa ddata gan: | Dyddiad |

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/23